

**PWYLLGOR NEWID HINSAWDD**  
**18 GORFFENNAF 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Newid Hinsawdd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2023.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Alasdair Ibbotson (Cadeirydd)**

Cynghorwyr: Gillian Brockley, Steve Copple, Mared Eastwood, Ian Hodge, Roz Mansell, Allan Marshall, Carolyn Preece, Dan Rose, Jason Shallcross a Sam Swash

**DIRPRWYON:**

Y Cynghorydd Rob Davies (ar ran Chrissy Gee)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Bernie Attridge a'r Cynghorydd David Coggins Cogan wedi mynychu fel arsylwyr.

**CYFRANWYR:**

Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi  
Rheolwr y Rhaglen Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon  
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi)  
Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**9. DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim

**10. COFNODION**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 23 Mai 2023, fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Rob Davies a Carolyn Preece.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

**11. CYNLLUN CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU Y RHAGLEN NEWID HINSAWDD**

Diolchodd y Rheolwr Rhaglen i'r aelodau am eu hadborth yn y cyfarfod blaenorol, gan gadarnhau bod eu hawgrymiadau wedi cael eu cynnwys yn y ddogfen atodiad. Roedd ffocws penodol wedi bod ar ymgysylltu gyda'r cyhoedd, ac adnabod unrhyw gyfyngiadau roedd ganddynt ynghylch rhai o newidiadau oedd rhaid eu gwneud o ran datgarboneiddio. Cyfeiriwyd yr Aelodau at dudalen 28 o'r pecyn adroddiad a oedd yn cynnwys sgrinlun o ddwy dudalen o'r Cynllun

Gweithredu, ac a oedd yn rhoi enghreifftiau o'r mathau o weithgaredd, sut cafodd pynciau eu hadnabod, pwy oedd y rhanddeiliaid a beth oedd y canlyniadau disgwylidig i sicrhau bod y cyngor yn cyflawni beth sydd wedi'i osod yn y cynllun.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan Allan Marshall ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Carolyn Preece. Ar ôl pleidlais, cafodd yr argymhelliad ei dderbyn.

### **PENDERFYNWYD:**

Mabwysiadu'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer y Rhaglen Newid Hinsawdd

## **12. DIWEDDARIAD CYNLLUN YNNI ARDAL LEOL**

Wrth gyflwyno diweddariad, rhoddodd y Rheolwr Rhaglen wybodaeth am y gweithdy ymgysylltu cyntaf a gynhaliwyd ym mis Mai 2022 gyda Swyddogion mewnol, a chyfeiriodd at yr ail weithdy gyda ARUP a gynhaliwyd pythefnos yn ôl. Cafodd ARUP eu contractio i ddatblygu Cynllun Ynni Ardal Leol a rhoddodd y Rheolwr Rhaglen ddiweddariad a oedd yn teimlo ei bod yn bwysig i'r pwyllgor ei ystyried a chynnwys unrhyw awgrymiadau.

Roedd y sleidiau ynghlwm i'r rhaglen ond amlygodd y Rheolwr Rhaglen y sleidiau penodol i gael eu hystyried a darparodd wybodaeth fanwl ar y canlynol:-

- Beth yw Cynllunio Ynni Ardal Leol?
- Beth yw eich system ynni lleol?
- Gwaelodlin allyriadau carbon ar gyfer Sir y Fflint
- Gwaelodlin defnydd o ynni - Diagram Sankey
- Trafod ar Alw - opsiynau strategol posibl

Cyfeiriodd y Cynghorydd Allan Marshall at ddefnydd ynni mewn cartrefi a gofynnodd a oedd unrhyw astudiaethau wedi eu cyflawni i amlygu os oedd yn fwy effeithlon i aelwydydd i gael y gwres ymlaen drwy'r amser ar dymheredd cyson, yn hytrach na defnyddio'r thermostat fel switsh i roi ymlaen a'i ddiffodd.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen ei fod wedi ei arddangos bod cael gwres ymlaen drwy'r amser gan osod y thermostat ar dymheredd is yn fwy darbodus na defnyddio hwb mwy o ynni i wresogi ardal ar adegau penodol o'r dydd. Dyma oedd yr egwyddor a fabwysiadwyd gyda'r system pwmp gwres a oedd yn gwresogi ardal at dymheredd penodol i gynnal cydbwysedd yn hytrach na gostwng a chodi ynni. Roedd hwn yn dechneg brofedig a ddefnyddiwyd gyda thechnolegau mwy newydd.

Rhoddodd y Cynghorydd Marshall sylw ei fod yn hanfodol bod hwn yn cael ei gyhoeddi i breswylwyr, a bod yr astudiaethau profedig yn cael eu cynnwys fel tystiolaeth.

Gofynnodd y Cynghorydd Roz Mansell os oedd hyn yn berthnasol i swyddfeydd ac adeiladau mawr Cyngor Sir y Fflint. Soniodd am gyfarfodydd yr

oedd wedi eu mynychu yn yr Wyddgrug ac Ewloe lle'r oedd yr ystafelloedd yn boeth iawn. A fyddai modd gwneud arbediad os yw'r gwres yn cael ei droi i lawr neu ei ddiffodd yn ystod yr haf, ac a oedd newid y system wresogi wedi cael ei ystyried. Roedd yn teimlo bod hyn yn broblem mewn fflatiau'r cyngor hefyd. Cytunodd y Rheolwr Rhaglen i archwilio i mewn i hyn.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) bos y systemau gwresogi yn Neuadd y Sir ac Ewloe wedi cael eu diffodd ers nifer o fisoedd. Roedd rheoli tymheredd mewn gwahanol ardaloedd yn Neuadd y Sir yn anodd gan fod pob un o'r ystafelloedd gyfarfod wedi eu lleoli ar flaen yr adeilad, ac yn boeth oherwydd y gwydr a'r ffaith eu bod yn wynebu tua'r de. Roedd system awyru yn yr ystafelloedd ond nid oedd modd troi hwn ymlaen pan roedd pobl yn dod i mewn i'r ystafell, nid oedd yn caniatáu amser i'r ystafell oeri yn arbennig os oedd y ffenestri yn cael eu hagor. Nid oedd yn meddwl ei fod gwerth ail osod unrhyw beth yn Neuadd y Sir. Gan gyfeirio at Ewloe, cadarnhaodd bod mwy o opsiynau o ran diffodd y gwres yno a chytunwyd i ddod â hyn yn ôl i drafod yn y pwyllgor.

Gofynnodd y Cadeirydd os oedd modd anfon ymateb e-bost i aelodau'r pwyllgor, a chytunodd y Prif Swyddog.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Steve Copple at atgyfnerthu rhwydwaith trydan a gofynnodd beth oedd hyn yn ei gynnwys. Yna soniodd am ffermydd gwynt a gofynnodd a oedd yr adroddiad wedi ystyried ansawdd y cyflenwad pŵer a fyddai'n cael eu gorlifo gan harmonig. Tyfodd hyn at bwynt lle roeddynt wedi difrodi cyfarpar sensitif, a cheisio sicrwydd y byddai pŵer gwynt mas yn ystyried yr effaith o switshis trydan, cyfraddau nam a rhedeg y system heb ddifrodi gliniaduron na chyfrifiaduron.

Cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen y byddai lefel o fanylder hynny yn cael ei gynnwys yn y cynllun terfynol a bod rhanddeiliaid a oedd yn cyfrannu at y cynllun yn cynnwys swyddog rhwydwaith dosbarthu a oedd yn gallu cynghori ar gapasiti grid ar draws y sir. Byddai hyn yn galluogi dealltwriaeth o beth sydd ei angen yn y sir, sut y gallai hyn gael ei hwyluso o fewn y seilwaith presennol a lle byddai angen ffocws buddsoddi i fodloni'r galw o'r tymor canolig i hir. Byddai'r rhanddeiliaid o fewn datblygiad y cynllun yn gallu cyfrannu at y manylion.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Copple at y term manylion gan nad yw rhai o'r dechnoleg yn bodoli eto, a gofynnodd a ellir ei amlygu nad oedd yn allu ffisegol ond hefyd y broses o ansawdd harmonig.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Alan Marshall at yr uwchraddio rhwydwaith sydd ei angen i ymdrin â phŵer ychwanegol a gynhyrchir gan baneli solar ar dai, a rhoddodd enghreifftiau o sut mae capasiti kw yn cael ei gynhyrchu. Os byddai'r ceblau yn rhy denau yna byddai'r foltedd yn lleihau os yw'n rhy uchel, yna byddai'n mynd â'r cynhyrchiant i'r tai eraill y tu allan i'r fanyleb. Byddai'n rhaid cynnwys y ceblau neu eu newid i leihau'r gostyngiad folt ar draws y cynhyrchiant hwnnw rhag mynd i'r rhwydwaith.

Roedd y Cadeirydd yn teimlo ei fod yn bwysig nodi'r cyfyngiadau o gyfrifoldeb y cyngor yn y maes hwn. Roedd hyn y tu hwnt i bwerau'r Cyngor.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi ei fod wedi mynychu'r gweithdy ac yn ymwybodol bod y Cynghorydd Marshall wedi sôn am ynni geothermal a'i botensial yn arbennig ar feysydd glo Gogledd Cymru. Amlygwyd hyn ac ychwanegwyd at y posibilrwydd i gyflenwad ynni.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y llinell amser a'r camau nesaf, a gofynnodd a ellir anfon cwestiynau gan Aelodau'r pwyllgor at yr Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi. Cytunodd yr Aelod Cabinet gyda'r dull hwn a dywedodd y byddai'n cyfeirio unrhyw gwestiynau technegol i'r Rheolwr Rhaglen.

**13. DICHONOLRWYDD ADWEITHYDDION BIO AR GYFER SGIL-GYNHYRCHION GLASWELL/ GWASTRAFF BWYD A GYNIGIWDYD GAN Y CYNGHORYDD ROSE**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd argymhellion ynghlwm â'r adroddiad hwn a gofynnwyd i'r Aelodau i anfon unrhyw gwestiynau dros e-bost at Sarah Slater, Swyddog Bioamrywiaeth Sir y Fflint.

**14. NEWIDIADAU CYNLLUNIO I GYNNWYS GOFYNION AR GYFER GWEFRU PASSIVHAUS/ SOLAR/ EV A GYNIGIWDYD GAN Y CYNGHORWYR ROSE A MANSELL.**

Cyflwynodd Adrian Walters, Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio yr adroddiad a nododd y cyd-destun polisi cenedlaethol a lleol a nodwyd y polisiâu perthnasol o fewn y Cynllun Datblygu Lleol o ran datblygiad cynaliadwy ac ystyriaethau Newid Hinsawdd.

O ran Passivhaus, dywedodd nad oedd deddfwriaeth na chanllaw cynllunio cenedlaethol a oedd yn gofyn i dai newydd fod yn ddyluniad Passivhaus. Darparodd wybodaeth ar sut mae'r eiddo hyn wedi cael eu hadeiladu a'r gost uchel ynghlwm o'i gymharu ag adeiladu tai traddodiadol, a themlodd y byddai datblygwyr yn amharod i dderbyn gan ei fod yn syniad eithaf newydd. Hefyd gallai hyn ddylanwadu prynwyr oherwydd y pris prynu uwch a diffydd dealltwriaeth o beth sydd yn rhan o adeiladu'r cartrefi hyn, a dyma pam bod y rhain yn dueddol o fod yn ddatblygiadau unigol. Soniodd am enghreifftiau o gyrff cyhoeddus neu gynghorau a oedd wedi rhoi tir oedd ar gael ar gyfer adeiladu tai a werthwyd ar gyfradd lai neu gyfradd tocyn i gymdeithas dai, ac arweiniodd at gyfleoedd ar gyfer datblygiadau Passivhaus. Ar hyn o bryd roedd y rhain yn brin iawn o ran maint.

Gan gyfeirio at baneli solar, eglurodd nad oedd gofyniad dan ddeddfwriaeth na chanllaw cenedlaethol ar gyfer paneli solar gael eu cynnwys o fewn datblygiadau tai newydd. Cafodd hyn ei gynnwys o fewn y Rheoliadau Adeiladau dan Ran L gyda Chynllunio wedi'i roi yn flaenorol fel ynni adnewyddadwy fel rhan o ddatblygiad tai, cod ar gyfer tai cynaliadwy, ac roedd gwybodaeth am hyn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. Roedd hyn yn arafu'r system gynllunio felly symudodd Llywodraeth Cymru hyn i Reoliadau Adeiladau, lle'r oeddynt yn teimlo ei fod yn gweddu yn well. Roedd CDLI wedi edrych ar ynni adnewyddadwy drwy gyflawni Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn dilyn canllaw gan Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio Adnodd Ynni Adnewyddadwy. Roedd hyn

wedi adnabod cwmpas ar draws y sir ar gyfer ffermydd solar, ac adnabuwyd tair ar ddeg o ardaloedd ynghyd â chynigion am ddatblygiadau ynni o wastraff. Roedd gan y Cynllun bolisi ar sail meini prawf a fyddai'n ei ganiatáu i asesu unrhyw gynigion math o ynni adnewyddadwy a oedd yn dod gerbron y Cyngor.

Gan gyfeirio at bwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan, dywedodd bod angen i Lywodraeth Cymru fel rhan o ddatblygiadau masnachol bod â 10% o fannau parcio ceir sy'n cael eu cadw ar gyfer gwefru cerbydau trydan. Doedd dim gofyniad ar ddatblygiadau tai ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y CDLI. Gan gyfeirio at gapasiti grid trydan a phwyntiau cysylltiad, dywedodd byddai broblemau petai bob un cartref ar ddatblygiad tai ar raddfa bwyntiau gwefru cerbyd a allai gael goblygiadau ar yr is-orsafoedd a diweddariadau i'r Grid.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi gosod nod bod datblygiadau newydd yn garbon niwtral erbyn 2025, ac roedd wedi nodi cwmpas ar gyfer y cyngor, adeiladau cyhoeddus a thai cymdeithasol i arwain y ffordd. Dim ond yn ddiweddar roedd yr Arolygiaeth Gynllunio Annibynnol wedi archwilio'r CDLI, ac ni wnaethpwyd unrhyw argymhellion gan Lywodraeth Cymru nad oedd y Cynllun yn alinio gyda'r Canllaw Cenedlaethol. Roedd y CDLI yn darparu sicrwydd i bawb sy'n gysylltiedig ar yr hyn roedd angen ar gyfer datblygiadau newydd, ac i gyflwyno canllaw newydd nad oedd wedi'i gefnogi gan y Canllaw Cenedlaethol neu Ddeddfwriaeth, a fyddai'n cael goblygiadau ac yn arwain at wrthwynebiadau gan adeiladwyr tai gyda goblygiadau ar gyfer tai fforddiadwy, addysg ayyb. Dywedodd nad oedd y Canllaw Cenedlaethol yn rhoi digon o wybodaeth i roi adnoddau i awdurdodau cynllunio lleol i fynd ymhellach o ran beth oedd yn ofynnol ar gyfer datblygiadau tai newydd. Roedd llawer o gwmpas ar gyfer y Cyngor, fel perchennog tir, i edrych ar y mesurau hyn fel rhan o'i adeiladau a stoc ei hun, a lle'r oedd yn gweithredu fel hwylusydd datblygiad newydd gan weithio gyda deiliaid tir, cartrefi newydd a chymdeithas dai, yn gosod y safonau uwch ar gyfer ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni.

Nid oedd yr Arweinydd Tîm eisiau ymddangos yn negyddol yn ei ymatebion, roedd y system cyfredol yn rhwystredig, ond roedd ychydig o negeseuon cadarnhaol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ffurfio'r CDLI nesaf a gofynnodd nifer o gwestiynau ynghylch cyflwyno'r polisïau o gapasiti solar ar ddatblygiadau newydd. Mewn ymateb, teimlodd yr Arweinydd Tîm roedd rhaid rhoi ystyriaeth y bydd hi'n bedair blynedd cyn y bydd angen adolygu'r cynllun, a gellir gwneud newidiadau gan y Canllaw Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru ynghylch â rhai o'r materion hyn. Byddai unrhyw newidiadau yn cael eu herio'n gadarn gan y diwydiant adeiladu tai o ran hyfywedd, os yw'r cyngor angen polisi bod ynni solar yn cael ei gynnwys mewn datblygiadau newydd. Byddai unrhyw newidiadau yn cael eu gwerthuso o ran cadernid gydag un o'r profion oedd ei fod yn gyson gyda chanllaw presennol a byddai'r Arolygydd yn edrych ar hyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Rose at y Passivhaus a oedd wedi bod yn bodoli ers 1988, gyda 30 mlynedd o dystiolaeth ryngwladol yn cefnogi hyn, a gofynnwyd a ellir gwneud cyswllt gydag Ymddiriedolaeth Passivhaus i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r tîm Cynllunio. Gan gyfeirio at ddisgwyliadau o'r asesiad ynni sy'n ofynnol i fwy na chant o dai, teimlodd y dylai hyn fod yn eithriad ar gyfer holl eiddo a ni ddylid caniatáu gwastraff ynni. Roedd yn teimlo na ddylai gwrthwynebiadau gan ddatblygwyr er elw fynd yn uwch na'r effaith ar hinsawdd.

Gofynnodd os gellir anfon llythyr i'r Gweinidog Newid Hinsawdd i amlinellu rhwystredigaeth y pwyllgor o ran deddfwriaeth Cynllunio ynghylch pa mor bell y gellir gwthio hwn mewn perthynas â phaneli solar ac isafswm safon diogelwch ynni. Nid yn unig ar gyfer yr hinsawdd ond ar gyfer pobl sydd yn byw yn yr eiddo hwn a chenedlaethau'r dyfodol.

Derbyniodd yr Arweinydd Tîm bod Passivhaus wedi bodoli ers peth amser ond mae'r diwydiant adeiladu tai wedi datblygu ei ffordd o feddwl dros y degawdau ac yn gyndyn o newid. Roedd am gymryd llawer o amser i newid pethau yn anffodus.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Sam Swash at y ddeiseb cyfredol gan Lywodraeth Cymru yn gofyn iddynt ddeddfu bod pob datblygiad newydd yng Nghymru yn cael paneli solar, yr oedd y Gweinidog wedi'i wrthod. Nid oedd yn rhagweld unrhyw gynnydd unrhyw bryd yn fuan a oedd yn bryderus ar gyfer y CDLI nesaf mewn pedair blynedd. Amlygodd hyn y pwysigrwydd y Cyngor hwn yn bod yn hy wrth gyflwyno'r gofynion hyn ac os oedd datblygwyr eisiau herio'r gofynion hyn, ac roedd Llywodraeth Cymru am gytuno i'r heriau hynny, a fyddai'n gwneud i'r datblygwyr a Llywodraeth Cymru edrych yn ddrwg, ac nid y Cyngor.

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) gan edrych ymlaen at y dyfodol y *gallai'r* Cyngor wrthod cais cynllunio oherwydd nad oedd ganddo baneli solar a byddai'n anochel yn arwain at apêl yn erbyn y penderfyniad hwnnw. Nid oedd gan y Cyngor statws Polisi Cynllunio i gefnogi'r gwrthwynebiad hynny a fyddai'n golygu y byddai rhaid i'r Cyngor dalu am yr apêl os yw wedi gweithredu'n afresymol. Roedd yn teimlo mai'r prif yrrwr yn y galw hwn, ac os oedd effeithlonrwydd ynni mewn paneli solar yna byddai'r cwsmer y cwmnïau tai yn mynnu hyn. Roedd hyn yn gweithio gyda rhai datblygwyr yn dechrau cynnwys hwn o fewn eu tai patrwm llyfr yng Nghaer gyda phaneli solar wedi eu hadeiladu ar y to. Gobeithir y bydd galw gan ddefnyddiwr yn gyrru newid ymddygiad y datblygwyr.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn dda wrth drafod galw cwsmer i adeiladwyr tai, ond gyda'r farchnad fel yr oedd byddai sefyllfa lle nad yw'r cyflenwad a'r galw yn gytbwys ac felly doedd gan ddefnyddwyr ddim llawer o bŵer yn y maes hwn a'i fod yn benderfyniad y wladwriaeth, Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth Genedlaethol i arwain a symud hyn.

Dywedodd y Cadeirydd bod y Cynghorydd Rose wedi cynnig newid i'r argymhelliad i gynnwys ysgrifennu at y Gweinidog Newid Hinsawdd a eiliwyd gan y Cynghorydd Swash.

Derbyniodd y Cynghorydd Marshall, y cynigydd gwreiddiol yr argymhelliad y newid, a hefyd derbyniodd yr eilydd, y Cynghorydd Eastwood.

Ar ôl pleidlais, cafodd yr argymhelliad ei dderbyn.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn a'r fframwaith cynllunio sydd ar gael i hwyluso datblygiad ynni adnewyddadwy a lleihau carbon drwy system gynllunio.

- (b) Anfon llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd i amlinellu rhwystredigaeth y pwyllgor o ran deddfwriaeth Cynllunio ynghylch pa mor bell y gellir gwrthio hwn mewn perthynas â phaneli solar ac isafswm safon diogelwch ynni.

## **15. DIWEDDARIAD AR YR HWB HYDROGEN A GYNIGIWDYD GAN Y CYNGHORYDD EASTWOOD**

Darparwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) a fyddai'n hapus i unrhyw gwestiynau gael eu hanfon dros e-bost at y Rheolwr Rhaglen i gael ymateb ysgrifenedig.

Dywedodd y Cynghorydd Mared Eastwood ei fod yn wych gweld y Cyngor yn symud tuag at ddatblygu Hwb Hydrogen yng Ngogledd Cymru. Bydd yn cysylltu gyda'r Prif Swyddog ynghylch adnewyddu fflyd y Cyngor, ac a byddai datrysiaid dros dro yn hwyluso prynu fflyd newydd nad oedd yn barod ar gyfer y cyflenwad Hydrogen pan fydd yn dod i Ogledd Cymru. Nid oedd yn ddelfrydol defnyddio Hydrogen Glas, ond dylai fod yn garreg camu pwysig i'w ystyried hyd yn oed os yw'n dod o rywle arall.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dan Rose at yr adolygiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi, a chododd bryderon ynghylch cread y farchnad i greu Hwb Hydrogen Glas gan ddweud y dylai fynd yn syth i Wyrdd os yw arian yn cael ei wario arno. Cododd gwestiynau a oedd yn berthnasol i'r pot cyllid, amodau ac awgrymiadau o hynny. Cytunwyd i ddarparu ymateb iddo.

Roedd gan y Cynghorydd Roz Mansell gwestiynau ynghylch blodau gwylt a chytunodd i'w hanfon ymlaen i'r Rheolwr Rhaglen. Dywedodd yr Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi pan roedd yr hadau yn disgyn, roedd rhaid torri'r blodau a chasglu'r tyfiant, a chadarnhaodd Sarah Slater (Swyddog Bioamrywiaeth) bod buddsoddiad yn cael ei wneud mewn peirianeg i gyflawni'r gwaith hwn.

## **16. DIWEDDARIAD AR YMCHWILIADAU**

Cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen bod Ymchwiliadau Llifogydd a Phensiwn Clwyd yn fyw bellach ac wedi eu cyhoeddi. Y dyddiad cau ar gyfer yr Ymchwiliad Llifogydd oedd 18 Awst, a'r dyddiad cau ar gyfer Ymchwiliad Pensiwn Clwyd 4 Awst 2023. Roedd cyflwyniadau wedi dod i law cyfeiriad e-bost [climatechange@flintshire.gov.uk](mailto:climatechange@flintshire.gov.uk) Bydd yr ymatebion yn cael eu casglu i ddwy ddogfen ar wahân ar gyfer y Pwyllgor eu dadansoddi ac adolygu ar ôl y dyddiad cau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Roz Mansell i'r deg wagen a oedd wedi'i lanhau yn flaenorol ac wedi gwagio'r rhwyll, ac roedd yn deall bod y rhain wedi'u lleihau i ddau. Soniodd am y llifogydd yn Celtic Street yr wythnos ddiwethaf a theimlodd petai'r rhwylli yn cael eu gwagio'n fwy aml yna byddai'n atal y llifogydd. Os na ellir gwneud hyn, gofynnodd a allai'r Cyngor ddarparu bagiau tywod i breswylwyr i atal dŵr rhag mynd i'w cartrefi. Awgrymodd y Cadeirydd bod hwn yn cael ei roi

mewn e-bost a'i anfon at gyfeiriad e-bost Newid Hinsawdd i sicrhau ei fod wedi cael ei gynnwys yn yr Ymchwiliad.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi at natur sensitif y wybodaeth a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd. Teimlai y byddai preswylwyr yn bryderus os yw eu strydoedd yn cael eu hamlygu yn ardal sydd yn cael llifogydd, a theimlai y dylai cyflwyniadau gael eu rhoi yn ddiennw heb gynnwys enwau'r strydoedd.

Cadarnhaodd y Cadeirydd na fyddai cyflwyniadau ysgrifenedig i'r Ymchwiliad yn cael eu cyhoeddi o fewn yr adroddiad. Byddai'r ardaloedd sy'n cael eu cynnwys yn ardaloedd sydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan breswylwyr a oedd wedi cysylltu â'r Cyngor, ac i'r mapiau llifogydd a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru a oedd yn amlygu graddfa'r llifogydd.

## **17. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau os oedd ganddynt unrhyw beth i ychwanegu at y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Argymhellodd y Cyngorydd Allan Marshall bod y Pwyllgor yn gwyllo rhaglen Earth ar BBC2 am yr wythnosau nesaf.

Gofynnodd y Cadeirydd bod gwahoddiad yn cael ei roi i gynrychiolydd ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru i fynychu cyfarfod i drafod cynllunio at raid i wres eithafol gael ei gynnwys.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig gan y Cyngorydd Carolyn Preece a'i eilio gan y Cyngorydd Dan Rose.

## **18. AELODAU'R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 2.58 pm).

.....

**Y Cadeirydd**